# RECORDERS' NEWSLETTER

**Cylchlythyr y Cofnodwyr 34 (Haf 2013)**

Gweithredu ar gyfer pryfed peillio i gynorthwyo a helpu pryfed peillio sy'n mynd â hi ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio a chynhyrchu 'Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio', sy'n hyrwyddo rhinweddau blodau gwyllt fel bwyd i bryfed. Gwych o beth yw bod pwysigrwydd cynefinoedd llawn blodau gwyllt, a'r pryfed y maent yn gynefin iddynt, yn derbyn sylw. Mae'r cyffro yn Rhondda Cynon Taf gyda'n glaswelltiroedd llawn blodau gwyllt, yn fwy byth. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o rannau Ynys Prydain, mae gennym ni gyfoeth o gyfryw gynefinoedd o'r fath. Mae'r gweirgloddiau llawn blodau gwyllt a'r porfeydd pori gyda'n trysorau botanegol pennaf. Maent yn gartref i lu o weiriau, blodau, a pherlysiau, a ffawna cysylltiedig o bryfed hofran, gwybed hofran, ceiliogod y rhedyn, gloÿnnod, a gwyfynod. Mae glaswelltiroedd cyfoethog eu rhywogaethau yn dal yn rhan o wead ei bioamrywiaeth o hyd. Mae'n teilyngu ein holl sylw. Maent i'w cael yn tyfu mewn hen gaeau, corsydd ar dir isel, lleiniau ac ymylon glas a glaswelltog, parciau, a mynwentydd, ar domenni gwastraff glofeydd, ac ar fân leiniau tir llwyd yma ac acw. Mae pob un o'r holl gymunedau llawn blodau gwyllt wedi tarddu o'r banc neu gronfa hadau naturiol lleol. Ni chawsant eu hau na'u plannu. Oes gennych chi ddiddordeb mewn gweithredu ar gyfer pryfed peillio yn Rhondda Cynon Taf? Un man cychwyn da yw ein glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau. Mae'r ddau yn mynd law yn llaw â'i gilydd.

Gwneud ychydig o waith botanegol yw'r prif glem ar gyfer cael hyd i laswelltiroedd pwysig.
(Ac mae hyn yn llawer haws na beth mae'n swnio.) A siarad yn fras, mae modd rhannu ein glaswelltiroedd yn ddau brif fath: glaswelltir sych, a glaswelltir gwlyb. Mae modd gwahaniaethu rhwng y rhain yn ôl eu ffloâu nodweddiadol - a hefyd yn ôl pa mor wlyb fydd eich sanau!

Mae llawer o'n glaswelltiroedd niwtral sych cyfoethog o ran rhywogaethau yn Rhondda Cynon Taf yn perthyn i Ddosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol Glaswelltir Mesotroffig 5 *Cynosurus cristatus-Centaurea nigra* glaswelltir niwtral, gydag U4 *Festuca ovina-Agrostis capillaris-Galium saxatile* glaswelltir asidig ar y priddoedd asidig mwy tenau. Bydd gofyn am damaid bach o Ladin er mwyn deall dosbarthiadau a chategorïau'r Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol, ond peidiwch â phoeni. Ystyr Glaswelltir Mesotroffig 5, yn y bôn, yw dôl neu weirglodd flodeuog y lluniau mewn llyfrau plant neu ar fatiau bord. Mae'r rhain yn gartref i **rhygwellt**, ond hefyd i lawer o rywogaethau gwair eraill, gan gynnwys **peiswellt coch, peiswellt y waun,**

**perwellt y gwanwyn, rhonwellt y ci, ceirchwellt melyn**, a **maeswellt cyffredin**. Hwyrach y bydd yr enwau yn anghyfarwydd, ond mae'n werth mynd yno ar ddydd o haf hirfelyn tesog i edrych ar bennau blodau'r gweiriau. Os oes modd cyfrif hyd at chwech neu saith, mae'n bosibl y byddwch chi mewn glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau. Y cliwiau haws, wrth gwrs, yw'r blodau, perlysiau, neu blanhigion porfa (gan ddibynnu ar eich enw i blanhigion nad gweiriau neu hesg mohonynt). Y rhain sy'n rhoi'r golwg nodweddiadol flodeuog i ddolydd a gweirgloddiau blodeuog. Bydd arweinlyfr am flodau gwledydd Prydain yn ddefnyddiol. Beth am brynu un, neu'i fenthyca o'ch llyfrgell leol? Y cam nesaf yn arferol yw edrych ar y lluniau, yna ddarllen disgrifiadau, ac yna droi at yr Allwedd os oes angen. Chwiliwch am **bysen-y-ceirw** a'r **bengaled**. Y ddau hyn yw blodau mwyaf nodweddiadol glaswelltiroedd niwtral heb eu gwella, yn tyfu'n isel. Os byddwch chi'n gweld blodau melyn a choch pys-y-ceirw neu feillion, a glas golau'r bengaled, mae'n bryd i chi ddechrau cyffroi! Gyda thipyn bach yn rhagor o ymdrech, mae'n bosibl y byddwch chi'n cael hyd i **feillion coch, peradyl garw, peradyl yr hydref, y feddyges, llygad-llo mawr, ytbysen y ddôl, cribell felen,** a'r **tegeirian brych**. Ar safleoedd calchfaen (lle mae'r alcalinedd yn uwch), mae'r cymysgedd rhywogaethau yn cynnwys rhai sy'n nodweddiadol o amgylchiadau ac amodau mwy calchaidd. Ymysg y rhain ceir **crydwellt, briallu Mair, tegeirian y wenynen, llin y tylwyth teg, clafrllys y maes** a'r **bengaled fawr**. Ar lethrau mwy asidig rhai o'r cymoedd, mae gan y glaswelltiroedd U4 dyweirch porfa **o beiswellt y defaid, brigwellt main, glaswellt y rhos, tresgl y moch, Briwydden y rhostir, suran yr ŷd, amlaethai`r waun** a **thegeirian brych y rhos**.

Mae glaswelltir gwlyb a glaswelltir corsiog ymhlith ein cynefinoedd pwysicaf a mwyaf nodweddiadol. Fel yr awgryma'r enw, mae'r glaswelltiroedd hyn i'w cael yn tyfu ar briddoedd gwlyb, ond mae modd i'r rhain lenwi amrywiaeth o leoliadau. Yn eu plith ceir glaswelltiroedd ar dir isel, gwlyptiroedd clo ar dir uchel, neu figneint lled-ddiferol ar lechweddau. Sail pob un o'n glaswelltiroedd corsiog yw llystyfiant sydd â chyfran uchel o naill ai glaswellt y gweunydd a / neu frwyn. Un enw cyffredin ar y rhain yw 'porfeydd rhos'. Er taw o Gymru y daeth yr enw hwn yn wreiddiol, fe'i defnyddir ar gyfer tiroedd ar hyd glannau gorllewinol Ewrop. Mae gennyf adroddiad am borfeydd rhos Galisia, yng Ngogledd-ddwyrain Sbaen, lle mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi diflannu.

**Ym mhorfeydd rhos clasurol y De, mae'n debyg taw glaswellt y gweunydd (Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol Mesotroffig M25) yw prif dyfiant y glaswelltiroedd corsiog. Maent i'w cael yn tyfu ar briddoedd llaith, mwsoglyd hyd yn oed, lle mae glaswellt y gweunydd a brwyn yn brif dyfiant. Ond, yn ogystal â hyn, mae enghreifftiau cyfoethog o ran rhywogaethau yn cynnwys planhigion porfa megis tresgl y moch, tamaid y cythraul, lliflys, melog, grug croesddail, tegeirian brych y rhos, llafn y bladur, cracheithinen, ysgallen y gors,** ac **erwain**. Un o nodweddion y safleoedd glaswellt y gweunydd yn Rhondda Cynon Taf yw presenoldeb ffynhonnau, llaciau, a thrylifiadau tra basig mewn mannau a lleoedd penodol. Y rhain sy'n sbarduno amrywiaeth nodweddiadol y blodau. Dolydd cors a ffen glaswellt y gweunydd ac ysgall y ddôl yw'r rhain (Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol Mesotroffig 24). Ymhlith y rhywogaethau a ddisgrifir uchod, fe geir yn aml glystyrau o rywogaeth hardd **ysgall y ddôl a thriaglog y gors**, a **llystyfiant** sy'n llawn hesg. Mae glaswelltiroedd brwynog yn un o nodweddion pwysig y dirwedd a thirlun porfeydd rhos hefyd. Mae'r borfa frwyn

nodweddiadol, gyda'i brwyn blodeufain, a briwydd y gors (Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol Mesotroffig 23) yn eithriadol o amrywiol, o ran cyfansoddiad ac o ran cyfoeth rhywogaethau hefyd. Bydd angen amlwg am frwyn (ac, yn aml, am laswellt y gweunydd a **maswellt penwyn** hefyd, a **briwydd y gors** a **physen-y-ceirw gulddail** yw'r blodau dangosol neu ddynodol nodweddiadol. Yn aml iawn, ceir amrywiaeth dda iawn o rywogaethau hefyd. Gall y rhain gynnwys **llysiau'r angel, erwain, carpiog y gors, blodyn llefrith, cycyllog, llafnlys bach, tegeirianau'r-gors deheuol, gold y gors**, ac **ysgallen y gors**.

Cael pridd prin o faetholion yw'r allwedd i gael glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, gyda chronfa hadau lleol a rheolaeth a dulliau rheoli priodol ac addas. Mae'r dulliau rheoli hyn yn dibynnu naill ar bori er lles cadwraeth, neu ar ladd gwair. Mae lladd gwair er budd cadwraeth yn dibynnu ar adael i'r blodau gwyllt a'r gwair flodeuo a hadu cyn eu torri tua diwedd yr haf neu yn yr hydref, gan symud y gwair ymaith. Mae'n hanfodol i symud ymaith y gwair ar ôl ei dorri.

Byddai gweithredu 'Cynllun gweithredu Cymru ar gyfer pryfed peillio' yn dibynnu ar hau hadau blodau gwyllt o gynnyrch meithrinfa. Nid yw'r fodel hon yn gweddu'n addas i'r amgylchiadau penodol yn Rhondda Cynon Taf. O ganlyniad i ddamwain a hap eithaf lwcus, mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf rwydwaith gyfoethog o gynefinoedd llawn blodau gwyllt. Yr allwedd i ni yw gwireddu potensial a gallu cudd naturiol safleoedd drwy reolaeth a dulliau rheoli addas. Mae pob un o'r holl fathau o laswelltir a ddisgrifir uchod yn dibynnu ar y gronfa hadau naturiol. Yn wir, dyma'r gronfa hadau sy'n caniatáu i'n glaswelltiroedd tir llwyd egino a thyfu pan fydd hen safleoedd diwydiannol yn cael eu gadael.

Mae modd i ni wireddu gweithredu cadarnhaol ar gyfer pryfed peillio yn Rhondda Cynon Taf gan osgoi cost, ôl troed carbon, a phroblemau ecolegol hau hadau blodau gwyllt o gynnyrch meithrinfa. O safbwynt bioamrywiaeth, byddwn ni'n hyrwyddo ein gweithredu ar gyfer pryfed peillio yn llawer gwell os canolbwyntiwn ni ar reoli glaswelltir ac ar adnabod a nodi ardaloedd lle gallai dulliau rheoli hamddenol ac esmwyth ganiatáu i'r blodau gwyllt presennol flodeuo, hadu, a darparu ffynonellau paill a neithdar i bryfed. Ble, yn y bôn, bydd modd i ni newid dulliau rheoli er mwyn caniatáu i ardaloedd gwair ddod yn weirgloddiau cadwraeth yn hytrach nag yn lawntiau? Ydych chi yn frwd ynghylch pryfed peillio? Gwnewch ychydig waith botanegol, dyna fy nghyngor i. Oes gennych lawnt? Ydych chi'n gyfrifol am ddarn o laswelltir neu o ofod amwynder? Ewch i weld beth sy'n tyfu yno - mae'n bosibl y gallai newid dulliau rheoli greu golygfa lawn blodau gwyllt. Os rhown ein hymddiriedaeth i'n cronfeydd hadau naturiol, ac ymdrechu ein gorau glas gyda'r gwaith rheoli, mae'n bosibl y gallwn ni wireddu ein gweithredu bioamrywiaeth, er budd y pryfed peillio ac i lawer o bethau byw eraill hefyd.

**Tywydd**
Mae Marcus Middlehurst wedi gyrru ei restr ardderchog o gyfansymiau dyddodiad. Mae'r rhain yn dangos yn eglur sut y mae tywydd gwlyb canol gaeaf wedi troi'n raddol yn ddiwedd sych i ddiwedd y gaeaf a dechrau'r gwanwyn.

**Rhagfyr 2014**, Cyfanswm dyddodiad 459mm, uchafswm 85 ar y 18$^{fed}$ a chyfanswm gwlybaniaeth i 2014 o 3806.5mm heb unrhyw eira mesuradwy yn ystod y flwyddyn galendar.

**Ionawr 2015**, Cyfanswm 551mm, uchaf 78mm ar y 1af â dim ond pum niwrnod heb law yn unig yn y mis
**Chwefror 2015** Cyfanswm 234mm, uchaf  50mm ar yr 22ain a dim glaw am 10 niwrnod (2il i 11eg).
**Mawrth 2015** Cyfanswm 133.5mm, uchaf ar y 30ain at 33mm a chyfartaledd 4.31mm
**Ebrill 2015** Cyfanswm 39mm, uchaf ar yr 28ain gyda 14mm, ail uchaf ar yr 2il gyda 13mm, cyfartaledd 1.26mm, gyda 26 o ddiwrnodau heb law yn y mis a 13 o ddyddiau sych yn olynol o'r 11eg tan y 25ain yn gynhwysol.
**Mai 2015** Cyfanswm 217mm, Uchaf 29mm ar y 30ain.

Dyma sylw Mark Evans ar yr un cyfnod sych:  '*Yn dilyn y gaeaf sychaf yn y ddwy flynedd ar hugain ers i mi ddechrau cofnodi, dyma'r mis Ebrill sychaf yn ystod yr un cyfnod hefyd. 16.30mm oedd y cyfanswm ar gyfer y mis cyfan. Mis Ebrill 2011 oedd yr un sychaf cyn hyn, gyda 24.30. Roedd y ddau ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer y mis hwnnw, sef 102.73mm.*

Yn ogystal â hyn, mae Mark Evans wedi gyrru adroddiad hynod ddiddorol am gofnodion tywydd 2014. Yn sgil ffigurau moel 2,258.65 o ddyddodiad mesuradwy, dyma'r ail aeaf gwlypach erioed yng Nghwmbach (dim ond 2000 yn unig oedd yn wlypach). Beth am gymharu â gwrthgyferbynnu hyn gyda chyfanswm Marcus ar gyfer Treherbert o 3,806.5mm? Mae hyn, unwaith eto, yn dangos mor arwyddocaol yw'r gwahaniaethau glawiad rhwng Gorllewin a Dwyrain Rhondda Cynon Taf. Mae ychydig sylwadau yng nghofnod Mark o'r tywydd yn dangos y duedd ar gyfer 2014. Ar 9fed Chwefror 2014: *'Dyma'r gaeaf gwlypaf ers 20 mlynedd'* (Cofnododd Mark 1,300 o ddyddodiad dros aeaf 2013/2014)  a 16eg Chwefror 2014:*'Ar ôl 66 o ddiwrnodau o ddyddodiad mesuradwy dyma'r diwrnod sych cyntaf yn 2014'*. O ran 2014, fe gofnododd Mark iddo gael 252 o ddiwrnodau gyda dyddodiad mesuradwy, a 232 o ddiwrnodau gyda 0.2mm neu'n fwy. Dangos mae hyn pa mor llaith yw ein hinsawdd. Yn ogystal â hyn, fe nododd Mark uchafswm tymereddau o 14.57 gradd Celsius, a lleiafswm ac isafswm cyfartaledd o 6.25 gradd Celsius: dyma nodweddion hinsawdd gefnforol fwyn.

**Gwanwyn**
Cafodd Margaret Harding fwynhad o'r gwanwyn claear, ond eto un heulog ar y cyfan. '*Wel dyma'r gwanwyn yn bendant ar ei ffordd, gyda chennin Pedr, llygaid Ebrill, llysiau'r wennol, a briallu ym mhob man. Roedd llu o loÿnnod allan mewn cae wrth ymyl yr orsaf dân yn Nhonysguboriau. Mi welais ddau felyn y rhafnwydd yno yng nghanol y dydd, ond roeddent yn anfodlon aros yn ddigon llonydd i dynnu llun ohonynt. Ond roedd yno fentyll paun, ac un fantell garpiog hefyd - honno'n eithaf araf hefyd - a llwyddais i fachu lluniau ohonynt. Roedd Maralyn, sy'n byw drws nesaf i mi, wedi gweld grifft brogaod ar ddiwedd mis Chwefror, y cynharaf erioed.'*

Aeth Mark Evans ati ar 20fed Ebrill i yrru ychydig feddyliau am y gwanwyn hwyr. '*Fe wnaeth Martin Bevan a fi ein hymweliadau cynnar ar gyfer yr Arolwg Adar sy'n Bridio Ddydd Sadwrn a Dydd Sul. Y tywydd oedd yr agwedd fwyaf eithriadol o anghyffredin am hyn i gyd. Roedd hi'n fwy tebyg i'r gaeaf ddoe, yn enwedig ar y sgwarynnau ucheldirol, ar Fynydd Merthyr. Byddai'r hen bobl ers talwm yn sôn am 'Aeaf yr Eirin Duon Bach'. Mewn blwyddyn arferol, a'r* ***ddraenen ddu*** *yn ei blodau, bydd y tywydd yn troi yn oer yn sydyn, fel pe bai am ein hatgoffa taw gynnau y ciliodd y gaeaf o'r*

*wlad, a'i fod yn barod i daro cis arnom eto heb rybudd.* Er gwaetha'r oerfel, '*a finnau ar fy ffordd i lawr o Fynydd Merthyr, gwelais fy mhâr cyntaf o **chwilod teigr gwyrdd'**.*

**Adar**

Anghofiais gynnwys adroddiad Neville Davies am wenoliaid y bondo yn mudo yr haf diwethaf: '*Yn ystod adroddiad am arolwg toriad dydd yn ardal Rhondda Cynon Taf ar 18fed Awst, sylwais ar nifer dda o **wenoliaid y bondo** yn mudo tua'r de. Cofnodwyd 147 yn y symudiad cyntaf am 6.15yb, gyda grŵp o 47 i ddilyn am 6.50yb.'* Mae Neville wedi cyfleu darlun gwych o fudo ar gerdded. Ar 28ain Mehefin 2014, yn agos i Barc Busnes Llantrisant, fe adroddodd Neville a rhoi gwybod am **ïach cyffredin** wedi'i godi o dir corsiog, ac am **hebog yr ehedydd** gwrywaidd hefyd. Efallai taw bridio roedd y giachod. Roeddent yn arfer fod yn gyffredin, ond roedd hebog yr ehedydd yn gofnod braf iawn i'w gael.

Anfonodd Mark Evans grynodeb o'i gyfrifiadau **brain** (cyfrifiadau misol) ar gyfer 2014. 204 oedd y cyfartaledd, gydag uchafswm o 436 ym mis Mehefin, ac isafswm o 74 ym mis Rhagfyr (pryd y byddai llawer o'r oedolion yn brysur wrthi yn sefydlu tiriogaethau bridio, magu, a nythu). Aeth Mark ar 27ain Mawrth *'i weld y **cigydd mawr** a gofnodwyd yn y goedwig ger Bwlch-y-Lladron, uwchlaw Hirwaun. A finnau'n cerdded heibio i Darren-y-Bwllfa ac yn mynd i gyfeiriad Mynydd Bwllfa, cefais bleser anghyffredin wrth weld yr awyr yn llawn o **ehedyddion** a **chorhedyddion y waun yn canu ac yn gwneud ehediadau arddangosfa'***.

Roedd Jonathan Barratt '*allan yr wythnos ddiwethaf (mis Ionawr) yn y Maerdy rhwng y ddwy gronfa, y Maerdy a Lluest Wen. Mi awn ar fy llw fy mod wedi gweld dau **foda tinwyn.** Roedd un yn eistedd ar bostyn ffens, a'r llall ar hen wal gerrig ryw 200m i ffwrdd. Mae'n bosibl taw adar ifainc oedd y rhain, ond llwyddais i ddod yn agos iawn i'r un ar y wal. A oes llawer o fodaod tinwyn yn y cyffiniau? Ni wn, ond dyna'r un cyntaf i mi.* Dyma gofnod gwych, er na fyddwn ni'n gweld llawer o fodaod tinwyn. Ymwelwyr gaeaf â'n hucheldir a mynydd yw'r rhan fwyaf a ddaw yma. Mae Mynydd y Maerdy ym mis Ionawr yn gystal lle â'r un i'w gweld.

Fe welodd Paul Marshman **ïach bach** yn y fawnog glo uwchlaw Llwynypïa ar 8fed Ionawr, a nododd David Harry **delorion penddu** yn ei ardd ef ddiwedd Ionawr, ynghyd â **siglen wen. Gïachod bychain iawn yw gïach bach, sy'n gaeafu gyda ni ond sy'n bridio yn y Gogledd pell. O Ganol Ewrop y daw'r telorion penddu yma yn y gaeaf. Bydd yr adar yn hedfan tua'r Gorllewin ar gyfer y gaeaf. Bridio yw nod y telorion penddu a ddaw yma yn yr haf, ac ymadael tua'r de fydd y rheiny. Gwelodd Hazel Penberthy ddau farcud coch** uwchben Llantrisant tua'r un adeg ag y gwelodd Vivian Anderson farcud coch uwchben Mynydd Aberdâr.

Mae'r ehedyddion wedi dychwelyd i fannau ein hucheldir a mynydd, arwydd sicr fod y gwanwyn ar ein gwarthaf. Daeth adroddiad i law o Paul Marshman fod ehedyddion yn ôl ar y tir uchaf uwchben Llwynypïa erbyn canol mis Chwefror. Clywodd Ray Edwards **siff-siaff** ar 16eg, ar Ystâd Ddiwydiannol Trefforest. Gwelodd Mark Evans ei **wennol** gyntaf ar 3ydd Ebrill. Mi welais i wenoliaid y glennydd **uwchben tref Pontypridd ar 8fed** Ebrill, ac erbyn 13eg roedd 10 uwchben y Rhondda yn Nhrehopcyn a dwy wennol yn anelu tua'r gorllewin ym Mhontypridd. Agorodd pyrth y gwanwyn led y pen. Erbyn y 15fed, roedd **telorion yr helyg** a siff-siaffod yn canu ym

Mhontypridd. Telor bron yr un ffunud oedd un, yn tiwnio'n ddi-baid oedd y naill, a'r llall yn pwnio ymlaen â'i synau 'siff-siaff' diddiwedd.

Mawr fu'r cyffro ym myd caredigion yr adar yn ein bro pan gefais adroddiad gan Graham Powell fod cog frech yn ein plith, ac yn cadw twrw ar draws Cwm Cadlan, Penderyn, ar 17eg Ebrill. Roedd yr aderyn hwn wedi crwydro ymhell o'i diroedd ac ardaloedd bridio yn Sbaen, a dyma fe yn llygadu'r piod lleol. (Piod, a phiod glas' mae'n eu parasitio yno.) Roedd yr aderyn hwn i'w weld, ar y cyd â **chog** gynnar, am nifer o ddyddiau cyn ei gwadnu hi i borfeydd brasach. (Efallai'i fod wedi newid cyfeiriad a hedfan tua'r de.) Yn dynn ar sodlau hyn, ar Ebrill 19eg daeth adroddiad llawn mor wych gan Hazel a David Penberthy. Roedd dau **aran** yn mynd heibio uwchben eu cartref yn Erw Hir, Llantrisant, gan fynd tua'r de. Maent wedi gweld garanau yn Ewrop, ac mae'r ddau ohonynt wedi gweld a chlywed yr adar hyn yn galw i'w gilydd. Dywedodd Hazel wrthyf yn ddiweddarach fod un o'i ffrindiau wedi'u gweld yn Llanilltud Faerdref. Mae garanau wedi cytrefu Norfolk yn Nwyrain Lloegr ar ôl absenoldeb o ganrifoedd, ac maent yn cael eu cyflwyno i Wastadeddau a Lefelau Gwlad yr Haf o'r newydd. Hwyrach fod modd i ni gymryd fod yr adar hyn wedi arnofio ar draws Môr Hafren. Os llwyddant i gytrefu Gwastadeddau a Lefelau Gwlad yr Haf, mae'n bosibl y gwelwn ragor ohonynt yn y dyfodol. O edrych yn ôl, rwy'n eithaf sicr fod Tony Swann wedi gweld garanau ar Gors Llanharan ychydig flynyddoedd yn ôl. (Tony - a yw hyn yn iawn?)

Erbyn 21ain Ebrill roedd Paul Marshman wedi clywed ei gog gyntaf eleni. Ar Domenni'r Ystrad oedd hyn, a hefyd gyda **thelorion y coed** a **llwydfronnau** yng Nglyncornel. Yn annibynnol o'r gilydd, roedd Ben Williams a Richard Smith wedi clywed cogau yn ardaloedd Tonyrefail a Threbanog. Clywodd gwraig Ben un wythnos yn ddiweddarach yng Nghlwb Golff Pontypridd. Fe sylwodd May Mark Evans, yn gynnar ym mis Mai, fod y cogau heb gyrraedd Cwm Cynon. Nid oedd yr un i'w chlywed! Hyd yn hyn eleni, dim ond ym Modwigiad y clywais i'r un gog. Erbyn hyn fel arfer mi fyddaf wedi sylwi ar ambell un ohonynt yn eu cyrchfannau arferol. Ac yn wir, ychydig yn ddiweddarach fe gadarnhaodd Mark fod y cogau wedi cyrraedd. Mae Mark Evans wedi traddodi newyddion am y cyfrifiad brain y gwanwyn hwn. *'Fe'u cyfrifais fore heddiw cyn y gwaith. 322 oedd y cyfanswm - o bosibl, y nifer uchaf ar gyfer Mai'.*

Ar 23ain Ebrill mi welais fy **ngwenoliaid duon** cyntaf eleni. Roeddent yn hedfan uwchben Pontypridd yng nghwmni gwenoliaid y glennydd, gwenoliaid y bondo, a gwenoliaid. Ni arhosodd y gwenoliaid yn hir iawn. Y tebyg gennyf i yw taw mynd drwodd roedden nhw. Roedd gwenoliaid duon preswyl Pontypridd yn ôl, a minnau'n dychwelyd o Ŵyl y Banc ar 5ed. (Mi dybiaf taw'r penwythnos hwnnw y daethant.) Dyma sut y gwelodd Mark Evans ei wennol ddu gyntaf ar 4ydd Mai: *'I fyny'r cwm roedd yr aderyn yn hedfan. A finnau yn digwydd galw heibio i ardal twnnel Merthyr rhwng swyddi, dyma fi yn clywed ac yn gweld fy nhelor y coed cyntaf eleni'.*

Ar Ebrill 27ain, fe glywodd Paul **delor yr ardd** yn canu yn Llwynypïa. Bydd telorion penddu yn ymweld â ni yn ystod yr haf yn eithaf aml erbyn hyn. Bydd modd eu clywed drwy gydol y gwanwyn ac yn ystod misoedd cynnar yr haf. Cân bersain a theloraidd yw hon, gyda nodau uchel soniarus. Dyna fel y cafodd y telor penddu enw fel 'eos y Gogledd'. Bellach, rydym ni ymhell i ymyl orllewinol gwasgariad cyson giliol yr eos yn y Deyrnas Unedig i gyd. Gan hynny, rhaid meddwl am yr aderyn hwn fel

Eos y Gorllewin. Y pwynt yw, fodd bynnag, fod cân telor yr ardd yn debyg iawn i gân y telor penddu, ond yn fwy meddal ac yn parhau yn ddi-dor. Os deuwch i arfer â chân y telor penddu, fe allai fod yn werth wirio ac archwilio unrhyw delorion penddu sy'n swnio yn anghyffredin. Os gwelwch delor o liw llwydwinau unffurf, fe allai fod telor yr ardd gennych.

Cawsom adroddiad gan Glyn Hughes ar, '***alarch** anaeddfed sydd i'w weld wedi cymryd at ddarn o Afon Taf rhwng Pont y Doctor a Chored Trefforest'.* Yn ôl nodyn Glyn. *'Dyma'r tro cyntaf i mi weld un mor bell i fyny'r afon. Mae'r alarch yma ers deuddydd erbyn hyn.'* Rhywogaeth eithaf anghyffredin yw elyrch dof yn Rhondda Cynon Taf. Roedd dwy **hwyaden ddanheddog** i'w gweld o hyd ar Afon Taf ym Mharc Coffa Ynysangharad, Pontypridd, ar 30ain. Gwelodd Paul Marshman hwyaden ddanheddog wrywaidd ar ei libart ef ar 20fed Mai, ac mi welais i un yn hedfan uwchben Pontypridd ar 9fed Mehefin. Dyma’r rhywogaeth fwyaf ysblennydd a gogoneddus o hwyaid. Un peth sydd wedi'u denu yma: mae ein hafonydd bellach yn lanach, a phoblogaethau'r pysgod wedi dadebru. Dangosyddion yw'r rhain o ba mor dda yw afonydd Taf, Rhondda, Cynon, ac Elái bellach. Ni fyddai neb 40 mlynedd yn ôl wedi breuddwydio am hyn.

Roeddwn i wrth fy modd yn gweld **cudyll coch** ar Gomin Cilfynydd yn gynnar ym mis Mehefin. Yn anaml iawn y bydd rhywun yn gweld cudyllod cochion y dyddiau hyn. Roedd Paul Marshman yn amau iddo glywed cân gwcw olaf y flwyddyn. Canodd aderyn gwrywaidd ddwywaith o Domenni'r Gelli ar 15fed Mehefin. Tua chanol mis Mai, fe welodd Sarah IIlsely *'farcud coch ar fy ffordd i'r gwaith fore heddiw. Roedd hi'n hedfan tua'r Gorllewin uwchben ffordd yr A4119 ger Tretomas*'.

Cawsom e-bost gan Jonathan Barrett ym mis Mehefin gyda *'cipolwg gwych ar **gudyll bach** eto ger Cronfa'r Lluest Wen'. A*c yntau allan yng nghwmni Lee Clarke ar y domen lo uchaf un uwchlaw'r Maerdy ar 8fed Mehefin, darfu i'r ddau weld aderyn ysglyfaethus mawr iawn tua 100 metr i ffwrdd. Nid oedd modd gweld pa fath ydoedd, ond roedd yn fawr iawn. A ninnau'n cerdded tuag at yr aderyn, dyma fe’n gwibio i ffwrdd ac yn glanio ar bostyn ffens. Llwyddasom i gyrraedd o fewn rhyw 20-30 o fetrau. Aderyn eithaf mawr oedd hwn, o liw brown ar y cyfan, ond â brest drawiadol iawn, bron yn wyn i gyd. Gofynnodd Lee beth ydoedd, gan ei fod heb weld dim byd yn debyg erioed. Wedi drysu braidd roeddwn i. Fe allai taw boda'r mêl ydoedd, awgrymais, neu'n foda tinwyn. Roedd fy llyfr tywysydd maes ar wylio ac adnabod adar gyda fi, felly dyna'i dynnu allan a chwilio drwyddo am y ddau foda uchod. Nid ymddangosai'r un ohonynt yn debyg i'r aderyn o'n blaen. Dechreusom fynd drwy bob un o'r holl luniau, a dod ar draws un yn benodol a dweud 'Dyna fe!'. Mae'r ddau ohonom yn credu taw **gwalch** oedd yr aderyn o'n blaen. Buom yn chwilio am ragor o luniau o weilch ar y Rhyngrwyd drwy'n ffonau, ac rydym ni'n eithaf sicr taw gwalch oedd yr aderyn a welem ni. Cawsom 10 munud o'i wylio, ond bob tro i ni geisio dod yn nes fe ehedodd i bostyn ffens arall. Dyma gofnod gwych yn wir. Fe fydd gweilch yn teithio drwy Rondda Cynon Taf bob gwanwyn wrth fynd heibio tua'r gogledd, a dychwelyd yn yr hydref. Gan hynny, mae cofnod o walch i'w weld yn gredadwy iawn. Rwy'n cymryd i'r aderyn gael ei ddenu i gyffiniau Cronfa Ddŵr y Maerdy gan bosibiliadau dal pryd blasus o bysgod. Serch hynny, mae Mehefin 8fed i'w weld braidd yn hwyr ar gyfer mudo. Roedden nhw'n siarad ar raglen 'Springwatch' eleni am sut y bydd gwahanol weilch yn ymladd am safleoedd a mannau nythu. Bydd y gweilch sy'n colli yn gorfod ei heglu hi. Bellach, mae dau safle bridio i'w cael yn y

wlad hon. Efallai fod adar oedd wedi methu cael cymar yn dechrau chwilio yma, er mor wan fo'r gobaith, o gael hyd i gymar a nythle. Efallai taw gwalch trist o'r Gogledd oedd aderyn Jonathan, felly, yn chwilio am gymar i leddfu'i ofid yn y Maerdy.

**Adar o Goed y Brynna**

Mae Tony Swann wedi anfon ei grynodebau o adar ar Warchodfa Natur Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt a Natur Coed y Brynna a Chors Llanharan.

12fed Hydref 2014. Gwelwyd yr '*heidiau mawr cyntaf o ditwod, gyda 19 o* ***ditwod cynffon hir*** *gyda* ***thitwod Tomos glas*** *a* ***thitwod mawr'***.
22ain Tachwedd. 2014 Dyma '*ddiwrnod y* ***dryw eurben****' gydag wyth o'r rhain i'w gweld*.
8fed Rhagfyr 2014 '*Y prynhawn yn oer a disglair, ac yn cynnwys y pleser o wylio pâr o* ***gnocellod braith mwyaf*** *yn meithrin cwlwm perthynas. Byddai'r gwryw yn hedfan i'r bôn coeden lle roedd y fenyw, weithiau yn is ac weithiau tua'r un uchder, ond wastad ar yr ochr gyferbyn. Byddai fe'n sleifio o gwmpas bôn y goeden wedyn fel pe bai am godi ofn bach sydyn ar y fenyw. Byddai hi wedyn yn hedfan i ffwrdd, byth yn fwy na 10 troedfedd, nes cyrraedd bôn coeden arall. Byddai'r gwryw yn mynd drwy'i bethau yn yr un ffordd yn gywir eto. Weithiau, ehedai'r gwryw i lanio ar gangen farw gyfagos, a galw neu ddrymio. Fe wyliais i'r miri a giamocs hyn am ryw 20 munud cyn symud ymlaen. Yn ddiweddarach ar fy nhaith gerdded, mi welais* ***fras y cyrs*** *benywaidd - trysor prin yn y lleoliad hwn.*
30ain Rhagfyr 2014 'Ceffylau yn tarfu ar dair **socan eira -** y tro cyntaf i mi'u gweld yn y coedwigoedd eleni. Rhywogaeth eithaf prin i'r lleoliad hwn, gan fod yn well ganddynt ardaloedd a mannau mwy agored, gyda choed gwasgaredig. Cofnodais 28 o rywogaethau ddeuddydd yn ôl, ond dim ond 20 yn unig heddiw. Y prif wahaniaeth oedd bod heddiw yn llawer cynhesach, a bod bach iawn o rew yn cuddio'r caeau cyfagos. Mae hyn yn esbonio sut mae patrymau bwydo yn cael eu haddasu er mwyn ymdopi â thywydd mor gyfnewidiol.

Yn ôl adroddiad Tony, fe fu rhwng 400 a 500 o **ji-bincod** a nifer o **bincod y mynydd** (eu cefndryd mwy gogleddol) yn bwydo ar gnau a mes ffawydd yng Nghoed Llantrisant yn gynnar ym mis Ionawr2015.

9fed Ionawr 2015 *'Dyma ddiwrnod i adar ysglyfaethus, gyda barcud coch yn dilyn llwybr cylchog braidd tua'r gogledd-ddwyrain, a* ***hebog tramor*** *yn hedfan yn syth o'r dwyrain draw tua'r gorllewin. Roedd rhaid i mi chwilio'n ôl drwy fy nghofnodion mor bell â 2009 i gael cofnod o hebog tramor ar y safle hwn.*
13eg Ionawr 2015 '*Dyna ddof oedd y* ***ffesant*** *gwrywaidd - amheuaf y byddai llond llaw o hadau wedi'i ddenu draw ataf. Gwelais un siff-siaff, ond heb fod yn galw. Gyda'r golau mor wan, nid oedd modd dweud ai siff-siaff gyffredin neu un o Siberia ydoedd.'*
21ain Ionawr 2015 '*Golygfa wych oedd yr 21 o socanod eira, gydag ychydig o* ***esgyll cochion*** *mewn cae i'r de-orllewin o'r rheilffordd. Yn ardal ddwyreiniol y coed, roedd grŵp bach o bedair* ***llinos bengoch*** *lai yn bwydo ar wern*. *Roedd grŵp bach o* ***freision y cyrs****, yn wrywod a rhai benyw, yn bresennol o ddiwedd mis Chwefror tan ganol mis Mawrth, cyn iddynt wasgaru gogyfer a magu a bridio'.*
18fed Mawrth '*Dyma'r siff-siaffod yn ôl, gyda'u sŵn 'siff-siaff' yn cyhoeddi'r gwanwyn newydd. Profiad llawer mwy uchelgeisiol, serch hynny, oedd* ***titw'r helyg*** *ar ei ben ei*

*hun ger gorsaf fwydo breswyl. Gwelais i'r* ***melyn y rhafnwydd*** *cyntaf ar 6ed Mawrth. Rhaid aros tan 21ain Mawrth cyn cael cofnodi* ***mantell paun.*** *Rhwng y dyddiadau hyn, gwelais* ***drilliw bach*** *yn ymweld â blodau'r grug yn yr ardd'.*
*Cyfanswm misol nifer y rhywogaethau o adar a welwyd*
*Ionawr - 39    Chwefror - 38    Mawrth - 41*

O'r uchafbwyntiau lu yn adroddiad Tony, titw'r helyg yw'r amlycaf. Prin iawn yw'r adar hyn bellach yn Rhondda Cynon Taf. Os na fuoch yng Ngwarchodfa Natur Coed y Brynna eto, byddai'n werth i chi alw heibio yno. Mae mignen gorlifdir ragorol ac arbennig yn gorwedd ymhlith y cynefinoedd coed a phrysgwydd gwych ac anhygoel. Ni fu'n derbyn gwaith rheoli a rheolaeth ers amser, ond bellach mae rhyw wartheg hyfryd o'r Ucheldiroedd yn pori yno yn ystod yr haf.

**Mamaliaid**
Gwelodd Jonathan Barrett '*dri ch**adno** yn ystod y pythefnos diwethaf, bob un mewn oriau dydd ac yn ardal Lanwynno. Byddant yn fwy niferus na'r bysiau cyn hir'*.

Nododd David Harry un **ystlum pedol lleiaf** yn ei gwt coed yn Llanhari ym mis Ionawr - sy'n dangos mor weithgar ac effro y gall ystlumod fod yn y gaeaf. Ni fyddant o reidrwydd yn treulio'r gaeaf cyfan mewn gaeafgwsg dwfn diwres. Mae'n dibynnu ar y tymheredd amgylchynol. Gallant newid safleoedd clwydo a heidio. Os oes gwybed gaeaf allan ar hyd lle, dyna gyfle iddynt fwydo hefyd.

Gwelodd Liam Olds **ysgyfarnog** ar Domen Lo Coedelái, yng Nghoedelái. Dyma'r cofnod cyntaf o ysgyfarnog ers sbel, ac roedd y newyddion yn galonogol iawn. Yn dynn ar sodlau hyn daeth e-bost o Jonathan Barrett: '*Mi welais ysgyfarnog i fyny ger Tomen y Mwg, ar bwys Tylorstown, a cher Llanwynno. Gwelais anifail arall yn Llanwynno yr wythnos ddiwethaf. Roedd yn croesi llwybr o'm blaen, ond methais a'i adnabod a'i nodi' Anifail llwyd golau ydoedd, yn debyg i ffuret o faint ganolig.* Roedd cofnod o ysgyfarnog yn galondid, ond tybed a oedd y ffuret o liw tywod? Os felly, mae'n bosibl taw **ffuret domestig** oedd y creadur, ond efallai'i fod ychydig bach yn rhy fawr i hynny. Ryw ddeng mlynedd yn ôl, fe fu cynnydd sydyn yn nifer yr adroddiadau dichonol am **feleod**, er na chadarnhawyd yr un. Daeth un o Goedwig Llanwynno. Mae beleod ar y cyfan o faintioli mwy canolog, ac os nad yw'r goleuni'n rhy dda yna ryw liw gwinau fydd arnynt.

Cefais syndod wrth glywed ar raglen 'Springwatch' fod niferoedd **draenogiaid** wedi disgyn gymaint. Roedd rhyw 30,000,000 ychydig ddegawdau yn ôl, ond bellach nid oes ond un filiwn. Roedd diflaniadau lleol i'w gweld yn bosibilrwydd cryf. A finnau allan ar hyd y fro mi fyddaf yn dal i weld gweddillion truenus draenogiaid ar y ffyrdd. Roedd dau ar y brif ffordd rhwng Aberpennar ac Aberdâr, a dau eto ar ffordd yr A473 yn agos i Donysguboriau. O weld nifer y draenogiad marw ar y ffordd, mae rhywun yn derbyn eu bod yma o hyd. Mae tom draenogiaid i'w gweld yn yr ardd bron bob bore. Bu fy merch yn gwylio un yn gwibio ar hyd yr ymyl ffordd bwy noson. Buaswn i yn amau fod croeso yn dal i ddisgwyl draenogiaid yn Rhondda Cynon Taf.

**Glöynnod a Gwyfynod**
Yn ystod y gaeaf, fe gyfrifodd Mark Evans a Mike Hogan 65 o **wyfynod herodr yn eu safle mewn twnnel yng Nghwm Cynon. Daeth y gwanwyn claear braidd yn hwyr ar gyfer gloÿnnod, er bod Gareth Henson wedi adrodd am lawer o**

**melynion y drain a thrilliwiau bach ar y Graig ym Mhontypridd ar Ebrill $14^{eg}$ Ebrill. Yn ystod y cyfnodau heulog, roedd gwynion blaen oren** rif y gwlith i'w gweld ar laswelltiroedd gwlyb Station Terrace, Pentre'r Eglwys. Ar yr $16^{eg}$, a finnau yng nghwmni Liam Olds a Ben Rowsen, mi welais i wynion blaen oren, melynion y rhafnwydd, mentyll paun, a thrilliwiau bach ym Mharc Gwledig Cwm Dâr.

Cawsom adroddiad gan Paul Marshman yn gynnar ym mis Mai bod **mentyll tramor** i'w gweld o Ffordd Penrhiw-fer ac mi welais innau ambell i fantell dramor yma ac acw. Yr awgrym yw taw mudo'r gwanwyn cynnar sydd ar waith yma. Os bydd y tywydd yn addas, fe allai rhywfaint o fridio ddilyn. Byddai hyn yn arwain at niferoedd da ymhen ychydig wythnosau - gwyliwch amdanynt!

Roeddwn i'n falch iawn i weld **gwalchwyfyn hofran** yn bwydo ar y **driaglog goch** yn fy ngardd yn gynnar ym mis Mehefin, ac ar y **bysen-y-ceirw** ar lwybr cymunedol Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys ar 12fed Mai. Ar yr ail achlysur, fe'u gwelais ar y cyd â dau **wibiwr llwyd**, sy'n gwneud hwn yn safle gwibwyr llwyd newydd. Ar $3^{ydd}$ Mehefin mi gefais ddiwrnod llewyrchus dros ben o ran y gwibwyr llwyd. Mewn byr o amser mi gefais hyd i boblogaeth ar hyd leiniau ac ymylon glas a glaswelltog Ystâd Ddiwydiannol Hirwaun wrth ymyl Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Blaen Cynon, a dau Safle arall gerllaw ardal pyllau dŵr a llynwenni'r Hirwaun (unwaith eto, yn agos i'r Ardal Cadwraeth Arbennig). Roedd gan bob un o'r holl safleoedd foroedd o bysen-y-ceirw, sef planhigyn bwyd y gloÿnnod. Ar bob un o'r holl safleoedd hyn, roedd rhai **gloÿnnod gleision cyffredin** a **gweirlöyn bach y waun** yn niferus, yn ogystal â **gwyfynod y gwyfyn ffacbys**. Ym Mhenywaun ar y rhan o'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig glaswelltir newydd sy'n eiddo i Rondda Cynon Taf mi welais **wyfyn yr adain ddu** eto. Yn y Gwanwynau cynnar a gawsom yn ddiweddar, byddai'r rhan fwyaf o'r gwibwyr llwyd naill ai wedi mynd erbyn dechrau mis Mehefin, neu fod golwg eithaf carpiog arnynt. Ond mi welais heidiau o loÿnnod braf dilychwin, sy'n dangos mor hwyr oedd y gwanwyn. Cryfhawyd yr argraff o wanwyn hwyr pan ddaeth cofnod i law gan Mark Powell o wyn blaen oren gwrywaidd yng Nghwm Dâr ar $4^{ydd}$ Mehefin.

Cafodd Ben Williams hyd i **brithribinod gwyrddion** ar y llechwedd rhwng Tonyrefail a Threbanog. Aeth ef *draw i safle arall tu ôl i Ganolfan Gymunedol Hen Ysgol Trefeurig, a chael hyd i 19 o frithribinod gwyrddion yno, yn ogystal â chwech o felynion y rhafnwydd* : Yn ôl sylw Ben, roedd melynion y drain a brithribinod gwyrddion ill dau wedi gwneud yn arbennig o dda y gwanwyn hwn. Yn ogystal â hyn fe welodd ef niferoedd mawr o **frithegion perlog** o Gwm Clydach, lle rhoes y ficrohinsawdd gysgodol gyfle iddynt ddod allan ymhell cyn mannau eraill. Gwelodd Paul Marshman frithegion perlog bach ar ei libart ef yn Llwynypïa, ac mi gofnodais i rai ar Gomin Llantrisant ac ar bwys Mynwent Treorci ym mis Mehefin. Dyna'r lle hefyd y gwelais i bryfyn bach pert cacynen y llus ***Bombus monticola*** yn pori ar **dresgl y moch**. Yn ôl adroddiad gan Paul, gwelodd un o'i ffrindiau **fritheg werdd** yn Ynys-hir tua chanol mis Mehefin.

Tua diwedd mis Mai, fe aeth Ben yn ôl i Gwm Clydach a gweld '*pump o frithegion perlog bach, yn wrywod newydd sbon danlli i gyd, dau wibiwr llwyd, ac un brithribin gwyrdd, yn hedfan am 90 milltir yr awr. Roedd y fioledau ar y safle yn ffynnu yn ffamws, ac mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer ffigurau'r flwyddyn nesaf, gyhyd â bod y tywydd yn peidio â chamfihafio. Credaf fod y gwaith torri a wnaethom ni'r gaeaf*

*diwethaf wedi talu ar ei ganfed. Roeddwn i ar y safle am hanner awr.* Mae Ben ac ymgyrch Trefi Taclus wedi ymgymryd â gwneud gwaith rheoli cynefinoedd gloÿnnod yng Nghwm Clydach, ac mae hyn i'w weld yn talu ar ei ganfed. Mae Cwm Clydach i'w weld bellach yn safle pwysig i loÿnnod. Mae pob un o'r holl flodau gwyllt yng Nghwm Clydach naill ei wedi egino o'r cronfeydd hadau lleol, neu fod eu hadau wedi cael eu chwythu i mewn ar y gwyntoedd cyson o'r Gorllewin. (Y rhain, gyda llaw, sy'n dod â'r hadau ar gyfer yr amryw blanhigion twyni sy'n ffynnu yn llaciau twyni'r safle.) Mae'r ecoleg ddeinamig yn hynod ddiddorol, ac yn llawer iawn pwysicach na phe bai wedi cael ei hadu â llond cwdyn o hadau. Y gamp o hyn ymlaen fydd ceisio gwneud sawl darn o waith rheoli cynefinoedd adeiladol er mwyn cadw'r mosaig gogoneddus o gynefinoedd.

Mae gloÿnnod **brithegion y gors** i'w gweld wedi gwneud yn dda yng Ngogledd Rhondda Cynon Taf. Roedd eu niferoedd yn arbennig o fawr ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwelltir Bryncarnau ger Llwydcoed. Ymddengys fod y gloÿnnod hyn wedi ymledu oddi yno i ail-gytrefu safleoedd ym Merthyr Tudful, lle roedd wedi diflannu ers nifer o flynyddoedd. Mae Richard Smith, Ben Williams, a Paul Denning wedi gweld poblogaethau bychain. Dal i obeithio rydym ni y cawn ymchwydd a thwf yn y boblogaeth i adlewyrchu beth sydd wedi digwydd ar y safleoedd gogleddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Infertebratau Gwastraff Glofa**

Un o naturiaethwyr y cylch yw Liam Olds. Mae'r Amgueddfa Genedlaethol wedi'i gyflogi i ymgymryd â gwneud gwaith arolygu infertebratau ar safleoedd gwastraff glofa yn y De. Prosiect gwirioneddol gyffrous yw hwn. Fe wyddom fod gwastraff glofa yn bwysig i loÿnnod, rhai gwyfynod, a chwilod teigr, ond ychydig a wyddom am grwpiau infertebratau eraill. Dyna pam y bydd beth bynnag a ddaw i sylw Liam o ddiddordeb mawr. Dyma'r ebost a anfonodd ataf am Domenni'r Gelli: *'Wel dyma safle rhyfeddol - rwy'n dwlu arni! Wedi cofnodi Bombus monticola yno heddiw, y tro cyntaf i mi weld un. Dyma fi felly wedi cyrraedd chwech o rywogaethau cacwn yno ar hyn o bryd'.*

**Bryoffytau (Mwsoglau a Llysiau'r Afu)**

Daeth y canlynol i law o Mark Evans: '*Cefais ebost gan George Tordoff yn ôl ym mis Medi i ofyn a oeddwn i wedi gweld mwsogl* ***Schistostegia pennata (mwsogl gloyw), neu 'aur y coblynnod'*** *i rai, erioed ym Morgannwg. Roedd ef wedi cael hyd i un twffyn ohono fin nos ar 23ain Medi 2014. Roedd yn tyfu o dan frigiad tywodfaen uwchlaw Troedyrhiw, Merthyr Tudful. Roedd Sam Bosanquet wedi darganfod yr enghraifft gyntaf ohono ym Morgannwg ger brigiad tywodfaen ychydig i'r De o Graig y Llyn, ar 4ydd Medi 2013. Dim ond yng Nghernyw roeddwn i wedi'i weld o'r blaen. Y ddwy waith, roedd yn tyfu ar wynebau fertigol gwenithfaen, un tro mewn daearfa o Oes yr Haearn, a'r tro arall o fewn mynedfa i lefel hen bwll mwyn. Cefais fy swyno'n lân wrth i'r goleuni ddisgyn arno a chynnau rhyw wawl fel aur gwyrdd ohono. Nid oeddwn i'n rhy sicr beth a allai fod y tro cyntaf i mi'i weld. Serch hynny, erbyn i mi'i weld tua blwyddyn yn ddiweddarach, roeddwn i wedi cael ei hanes i gyd yng Nghyfrol E.V Watson 'British Mosses and Liverworts: An Introductory Work'. Ond er cael y manylion gwyddonol i gyd, ni allai ddim lleihau'r rhyfeddod a lanwai fy nghalon pan bwyntiais fy nhors i mewn i fynediad ceuffordd fechan ar bwys llwybr yr arfordir. Roedd y mwrllwch yn llawn fflachiadau o oleuni gwyrddfelyn disglair.*

*Am flwyddyn neu ddwy ar ôl hynny, chwiliais yn ofer am y ffwng ar hyd cymoedd Cynon a Thaf. Gwaetha'r modd, roedd gennyf lai o oriau rhyddion ar gyfer chwilio, a*

*methais gael hyd i ragor. Roeddwn i ar fin rhoi'r gorau iddi. Hyd yn oed ar ôl i lyfr ardderchog Cymdeithas Fwsoglegol Prydain, 'Mosses and Liverworts of Britain and Ireland: a Field Guide' ddod allan, mewn ffordd ddigyswllt iawn y bûm yn chwilio amdano. Nid wyf yn fwsoglegydd, nac yn fab i fwsoglegydd, ond rhyfygaf ddatgan nad yw'r mwsoglau yn ddieithr i fi. Ac o blith y rheiny, Schistostegia pennata oedd y Greal. Pan glywais sôn ei fod yn llechu mewn ogof yn y cyffiniau, gan hynny, dyna fi yn penderfynu mynd ar ei drywydd. Daeth fy nghyfle cyntaf i fynd i fforio yn gynnar ym mis Hydref. Dyma fi yn mynd am dro ar hyd llwybr marchogaeth coedwig, yn rhedeg i fyny llechwedd serth dyffryn Fforchaman. Pwyntiais fy nhors i mewn i'r mwrllwch o dan drosgrog, a gweld dwy batshen fach ohono yn disgleirio'n hudolus yn y goleuni sydyn.*

*Euthum ati wedyn i chwilio ychydig safleoedd tebyg mewn lleoedd a mannau eraill. Gwaetha'r modd, roeddent i gyd yn rhy wlyb. Yn ôl y tywysydd maes, mae'n well ganddo leoedd a mannau tywyll, mewn pridd sych, briwsionog. Tua diwedd mis Tachwedd, serch hynny, roeddwn i'n fforio a chwilio Craig Abercwmboi. Dyma fi yn cyrraedd y Daranlas, sef y brigiad tywodfaen uwchlaw Meisgyn, Aberpennar. Nid oeddwn i erioed wedi mentro i fyny yno o'r blaen, ond gwelais fod pob twll a chornel o'r brigiad yn cynnig cyfle i gael hyd y Schistostegia pennata. Dyna fi felly yn chwilio pob un o'r mannau tywyll o fewn cyrraedd. Methais gael llwyddiant nes i mi ddechrau hollt fertigol gul yn y clogwyn. Gwelais rywbeth euraid yn gwreichioni yng ngolau'r tors. Tyfai yn rhy bell i mewn i mi ddod yn agos, ond roeddwn i'n weddol sicr taw Schistostegia pennata ydoedd, yn hytrach na rhyw blanhigyn fel llysiau'r afu yn llawn dail gwlithog, sy'n adlewyrchu goleuni â rhyw wawl gwyrdd. Cododd fy nghalon i'r entrychion yn sgil hyn, ond dechreuodd yr amheuon bwyso arnaf. Dyma fi felly yn cyrraedd yn ôl wythnos yn ddiweddarach. Roedd gennyf gamera a ffon untroed iddo. Gosodais y camera i'w amseru'i hun er mwyn ceisio cael llun agos o'r mwsogl. Roedd hyn yn llawer mwy o waith caled na'r hyn a ddisgwyliwn, ac mi fethais yn llwyr. Penderfynais gymryd egwyl o'r holl rwystredigaeth, a mynd am dro bach. Cefais hyd i hollt gul fertigol, tua 50-75mm ar led, oedd heb ddod i'm sylw o'r blaen. Pwyntiais fy nhors i mewn, a dyma ryw sbloetsh hyfryd o aur, tua'r un faint â'm llaw, yn pefrio'n ddisglair yn y tywyllwch. Gan ei bod  yn nes i'r fynedfa i'r hollt, roedd modd i mi dynnu llun eithaf da.*

*Edrychais ar ambell i safle arall wedyn, oedd â golwg mwy addawol, ond yn ofer. O edrych ar bob un o'r holl bedwar safle ym Morgannwg, hawdd gweld fod ganddynt yr un wynebwedd: mewn brigiadau neu drosgrogau sy'n wynebu rywle rhwng y Gogledd a'r Dwyrain. Ni fyddant yn wynebu'r haul, fel hyn, ac eithrio yn gynnar yn y bore yn ystod misoedd yr haf. Bûm yn gwirio ac archwilio dau safle yn wynebu tua'r De-orllewin, ond nid oedd dim i'w weld ynddynt. Wrth i ni ddarganfod rhagor o safleoedd ar gyfer y rhywogaeth hon yn y Cymoedd, bydd yn ddiddorol i weld a oes gan gyfran sylweddol ac arwyddocaol ohonynt yr un wynebwedd.*

*Wrth i mi ymlwybro i lawr o'r safle, mi welais ar bwys ffordd y goedwig sut roedd y dŵr wedi rhedeg i lawr a golchi'r pridd oddi ar ddarn o'r creigwely tywodfaen. Daethai wyneb caboledig rhesog i'r golwg, wedi'i greu gan y rhewlif a gerfiodd y dyffryn allan yn wreiddiol. Roedd y rhychiadau 150 o fetrau uwchben llawr presennol y dyffryn. Dyn a ŵyr faint yn uwch i fyny oedd wyneb uchaf y rhewlif'.*

Anfonodd Mark lun o fwsogl gloyw Fforchaman ataf, ac mae'n rhyfeddod i'w weld.

**Planhigion**
Dal i wamalu mae'r **boblogaeth** tegeirianau'r waun ym Mynwent Cefn-y-Parc. Gwelais 18 o sbigynnau yn blodeuo yno. Un peth diddorol yw bod rhai o'r blodau yn dueddol o symud o flwyddyn i flwyddyn. Hynny yw, nid y planhigion fel y cyfryw sy'n symud, ond fod y sbigynnau yn blodeuo mewn lleoliadau gwahanol o flwyddyn i flwyddyn. Efallai nad ydynt i gyd yn blodeuo mewn un flwyddyn. Os felly, efallai fod y boblogaeth yn fwy na'r hyn a awgrymir gan y cyfrifiadau blynyddol. Aeth Margaret Harding hefyd i ymweld â'r Fynwent. '*Dyma'r adeg o'r flwyddyn i wirio ac archwilio ein tegeirianau'r waun. Roeddwn i wrth fy modd yn cael hyd i 14 ohonynt yn y brif ardal. Roedd dau ohonynt ymhellach draw nag arfer, ac un o'r rhain yn binc - sy'n brofiad hollol newydd. Dim ond dau yn unig y cefais hyd iddynt yn y ddôl arall, ond roedd golwg eithaf cryf arnynt. Peth arall a sylwais i oedd taw nawr roedd y briallu Mair yn dechrau dod i'r amlwg, a bod daint y llew wedi hedeg*'

Mae golwg gogoneddus a gwych ar laswelltiroedd Mynwent Cefn y Parc. A finnau'n ymweld â'r lle yn ddiweddar mi welais bys-y-ceirw rif y gwlith wedi'u britho â channoedd o degeirianau brych, pennau hadu briallu Mair, a'r pengaled du a'r clafrllys cyffredin ar fin blodeuo. Golygfa hardd i'w rhyfeddu oedd poblogaeth anferthol y gleision cyffredin.

Mewn ambell i le ar yr Hirwaun, cefais hyd i ***fantell-Fair lefn Alchemilla glabra****.* Mae hon i'w gweld (fel pob mantell-Fair) yn ddigon tebyg i'r mentyll-Mair llyfn cyffredin, ond rwyf wedi tynnu digon o'r chwyn ymosodol hyn o bridd diniwed fy ngardd i wybod fod y fantell-Fair lefn yn wahanol. Wrth i mi wirio ac archwilio gartref, gwelais fod y dail mwy, heb flew, yn gyson â *mantell-Fair lefn*. Wrth edrych yng nghyfrol Wade, Kay, ac Ellis, 'Flora of Glamorgan', gwelaf eu bod wedi'u cyfyngu i gyrion gogleddol Morgannwg, yng ngodre Bannau Brycheiniog - disgrifiad digon teg o leoliad yr Hirwaun. Cefais hyd i blanhigyn arbennig o hardd ar ystâd ddiwydiannol yr Hirwaun am yr ail dro, sef **melynog y waun** sef corlwyn â blodau melyn, o deulu'r pys. Euthum ati i wirio ei ddosbarthiad yng nghyfrol Wade, a darganfod sut roedd melynog y waun yn hynod brin yn hanner gogleddol Morgannwg - yn wir, prin ei fod yno o gwbl. Dyma yn sicr yr unig safle yn Rhondda Cynon Taf hyd y gwn i. Ym mis Mehefin hefyd, cafodd Margaret Harding hyd i dri **thegeirian y wenynen** yng Nglofa'r Cwm.

**Cennau**
Yn ôl Mark Evans a Mike Hogan, '*Gwelsom **Terana caerulea (grawen las)** yn tyfu ar ryw gymysgedd dryslyd o frigau marw wedi disgyn a **mieri**. Roedd **llarwydd** ymhlith y rhywogaethau lle tyfai. Nid oeddwn erioed wedi'i weld yn tyfu ar larwydd, na chlywed amdano yn gwneud hyn chwaith.*

Cafwyd adroddiad cyffrous iawn gan y Dr. Paul Smith, Prifysgol Bryste, am gen a ddaeth i olau dydd yng Nghwm Cynon. '*Cafodd Emma Burak, un o'm myfyrwyr MSc, hyd i'r sbesimen a ddangosir isod ar ddraenen wen yn tyfu ar wastraff glo. Anfonwyd y sbesimen i gael ei chadarnhau ond, yn amodol ar hynny, credaf fod y cen hwn yn **llygad aur**, Teloschistes chrysophthalmus.* Dyma ddatganiad ychydig ddyddiadau yn ddiweddarach gan Sam Bosanquet, sy'n arbenigydd cennau drwy Gymru benbaladr a holl wledydd Prydain:

*Mae'r llygad aur wedi cyrraedd Cymru!*

*Rwyf newydd gael ebost gan Janet Simkin, o Gymdeithas Cen Prydain. Mae hi'n traddodi llun o gen llygad aur (Teloschistes chrysopthalmus) wedi'i dynnu ym Morgannwg ychydig ddyddiau yn ôl.*

*Dyma un o gennau mwyaf rhyfeddol o drawiadol gwledydd Prydain - ac yn un o'r prinnaf hefyd. Y dyb oedd ei fod wedi diflannu yn Ynys Prydain ers tua 30 o flynyddoedd nes i glwt ohono ddod i'r amlwg ar goeden mewn perllan yn Swydd Henffordd yn 2007. Oddi ar hynny mae dau neu dri o gofnodion wedi dod i law o Dde Lloegr. Mae arolygon yn Swydd Gorc yn Iwerddon yn ddiweddar wedi datgelu poblogaethau cryf o ddrain gwynion ar lannau dau aber. Chwiliais am y coed hyn mewn cynefinoedd glan aber tebyg yn Sir Benfro a Morgannwg, ond yn ofer hyd yn hyn. Fe gafwyd awgrym fod yr amodau cynhesach a gwlypach yn ddiweddar wedi bod o fantais i'r cen llygad aur ryw ffordd neu'i gilydd. Mae'n bosibl ar yr un pryd fod y cen yn tyfu ger aberoedd y De-orllewin ers degawdau, ond fod neb wedi'i sylwi. Mae'r cytrefi hyn wedyn yn esgor ar duswau wedi tyfu o sborau ymhellach i'r gogledd-ddwyrain.*

*Emma Burak, sy'n astudio ecoleg tomenni a thipiau glo ar gyfer gradd MSc, a dynnodd y llun o'r gytref newydd hwn yng Nghymru. Cafodd y gwaith adnabod a nodi ei gadarnhau gan yr ecolegydd ar ei liwt ei hun Dr. Paul Smith, ac yn ddiweddarach ar ôl hynny gan rai o arbenigwyr Cymdeithas Cen Prydain. Cafodd y llun ei dynnu ar domen glo ger Aberdâr. Mae'r cen hwn wedi, ac yn cael, ei warchod o dan Atodlen 8 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad oherwydd pryderon y gallai fod yn darged i gasglwyr. Am y gwyddom ni, yr un tusw hwn yn y llun yw poblogaeth gyfan y rhywogaeth yng Nghymru. Gan hynny, ac o gofio mor drawiadol yw golwg y cen hwn, fe ystyrir fod angen peth cyfrinachedd parthed yr union leoliad.'*

O ystyried y pryderon ynghylch bregusrwydd a chyflwr agored y cen i niwed, canlyniad hyn yw ein bod yn cadw ei union leoliad yn gyfrinachol. Serch hynny, os chwiliwch am lygad aur ar y Rhyngrwyd, er mawr fach ydyw fe welwch pa mor rhyfeddol o drawiadol yw'r cen hwn. Hyd y deallaf i, nid oes o reidrwydd ddim yn arbennig ynglŷn â'r llwyn draenen wen lle cafwyd hyd iddo. A chithau yn crwydro Rhondda Cynon Taf, os digwydd i chi fynd heibio i lwyni drain gwynion, bydd yn werth cadw llygad yn agored am y cen llygad aur - yn arbennig yn y gaeaf, pan fydd y dail wedi disgyn. Hwyrach y cewch hyd i safle arall ar ei gyfer. Pwy a ŵyr?

Yn gydnaws â'r gwaith ditectif (un o rannau pwysig cenneg), gyrroedd Mark Evans y newyddion canlynol sy'n gysylltiedig â chennau: 'Yn dilyn y newyddion cyffrous am ddarganfod y cen prin Teloschistes chrysophthalmus, rwyf wedi talu llawer yn fwy o sylw i'r cennau deiliog ar y coed yn y cyffiniau yma. Er fy mod heb weld Teloschistes chrysophthalmus yn yr ardal, bûm yn ddigon ffodus i gael hyd i un ar warchodfa Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Dorset, ger Dorchester, yn gynnar ym mis Mawrth. Dyna sut y dysgais eu hadnabod yn y maes. A finnau'n chwilio yn hamddenol (sut mae chwilio yn hamddenol?) amdano ar amryw o wahanol rywogaethau o goed gyda rhisgl wedi'i gyfoethogi â maetholion, rwyf wedi dysgu gwerthfawrogi harddwch llawer o'r cennau deiliog hynny, ac ychydig o'r rhai cramennog hefyd, yn llawer gwell. Sylwais ar rywbeth diddorol am grwpiau o goed

o'r un rhywogaeth, a thua'r un oed, a modd o dyfu. Ymddengys y bydd rhai unigolion bob tro sy'n cario poblogaeth cennau sy'n llawer mwy o ran maint ac amrywiaeth na rhai'u cymdogion. Mewn rhai grwpiau, mae'r gwahaniaethau yn drawiadol iawn. Bydd y rhan fwyaf o'r fflora cennau i'w chael ar nifer fechan o goed unigol yn y grŵp. Rhaid bod hyn yn digwydd yn sgil graddfa'r cyfoethogiad maetholion yn y coed unigol hynny.

**Ffyngau**
Mae Mark Steer wedi parhau i ehangu rhestr y ffyngau lleol (yn benodol ar gyfer Llanharan).
Dyma'i restr ar gyfer Tachwedd 2014 - Chwefror 2015:

**Torth tylwyth teg *Hypholoma fasiculare var.fasculare*** (capiau hyd at 4cm ar hyn o bryd, gyda phrosiect ymchwil Prifysgol Caerdydd arnynt yn parhau)
**Torth tylwyth teg *Hypholoma fasiculare var.pusillum*** (amrywiad bychan, gyda chapiau hyd at 2cm. yn weddol fflat a thenau, y sbesimenau gyda Phrifysgol Caerdydd)
**Crawen waedlyd grychlyd *Stereum rugosum***
**Brith y celyn *Trochila ilicina*** (yn llai na 1mm, ar wyneb uwch dail marw yn unig)
***Phacidium multivalve*** (yn debyg i Frith y celyn, ond yn fwy nag 1mm, ac yn tyfu ar ddau wyneb dail celyn marw.)
**Pen pin derw *Cudoniella acicularis***
**Wystrysen y Coed *Pleurotus*** (heb fod yn sicr ai ***P.ostreatus*** *neu* ***P.cornucopiea****,* yng nghanol Tonysguboriau ar goeden fyw)
**Ffwng dail arian *Chondrostereum purpureum***
**Cwpan Robin Goch *rhywogaeth*** Sarcoscypha (cadarnhawyd fod sbesimenau a ddarganfuwyd yn y Coedydd a Choedwigoedd yn ***S.austrica*** ond bydd angen microsgop i fod yn sicr o'r rhywogaeth)
**Cynffon y twrci *Trametes versicolor***
**Cap bera'r ffŵl *Conocybe filaris*** (yn fy ngardd i, mewn compost potio yn aml iawn, ac yn wenwynig iawn!)
**Bonet coed *Mycena galericulata***
**Twmffat pen mynach *Clitocybe geotropa***
**Ysgwydd fyglyd *Bjerkandra adusta***
**Crawen las *Terana caerula*** (y sôn yw bod y rhain yn anghyffredin, ond mae digon i'w gweld) yn Is-sir 41 Morgannwg.
**Cap inc yr aelwyd *Coprinellus domesticus*** (yn eithaf tebyg i rywogaeth y cap inc gloyw *Coprinellus micaceus* ond bydd angen microsgop er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt)
**Cap cennog blewog *Pholiota squarrosa***
**crawen dyllog *Schizophyllum commune*** (maes parcio Gorsaf Llanharan).

Yn ogystal â hynny, penderfynodd Mark fentro i fyd dirgel y **llwydni llysnafedd**. Dyma beth oedd ganddo i'w ddweud: '*Dylwn ddatgan i ddechrau nad wyf yn arbenigwr ar y rhain, ond fe'u caf yn hynod ddiddorol! Y gred gyffredinol ers talwm oedd taw ffyngau oedd y llwydnïau llysnafedd. Bellach, maent wedi cael eu dosbarthu gyda Theyrnas Protista. Cefais hyd i nifer o lwydnïau llysnafedd yng Nghoed y Brynna dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Ymhlith y rhain roedd **Ffug goden fwg Reticularia lycoperdon** a Bustl **melyn Fuligo septica** (a adwaenir ar gam weithiau fel **Cyfog y ci**, sef **Mucilago crustacea**). Mae'r rhain yn weddol amlwg*

*oherwydd eu maint a'u ffurf. Serch hynny, yn yr un modd â phob un o'r holl lwydnïau llysnafedd, bydd y rhain yn mynd drwy nifer o gamau neu gyfnodau.*

*Cefais hyd i ddwy enghraifft yn rhagor yn ddiweddar, a'r rhain yn llai amlwg oherwydd eu maint. Enwau'r rhain yw* ***Badhamia urticularis*** *a* ***Hemitrichia clavulata****. Flin gennyf nad oes enwau Cymraeg! Cawsom gymorth i'w hadnabod gan Lee Johnson. Bu Lee gyda Grŵp Ffwng Gwent cyn symud i Ynysoedd Erch. Edrychodd Lee ar y sbesimenau o dan y microsgop. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cadarnhau gwaith adnabod - ond, yn anffodus, y tu hwnt i'm galluoedd i. Bydd rhywun yn cael hyd i lwydnïau llysnafedd yn aml iawn ar ochr is boncyffion, mewn lleoedd llaith a chysgodol. Hoffech chi wybod rhagor ynglŷn â llwydnïau llysnafedd? Yn fy marn i, y wefan hon yw'r man cychwyn gorau: www.hiddenforest.co.nz/slime/'*

Dyma neges ddiweddar gan Mark: '*Gobeithio fod hyn ddim yn rhy hwyr i'r Cylchlythyr nesaf, ond mi welais lwydni llysnafedd arall yng Nghoed y Brynna -* ***Metatrichia floriformis****. Gwelais rai mewn mannau eraill, a'r rheiny wedi'u hadnabod yn gywir, ac rwy'n eithaf sicr o'm pethau. Ond dyma'r tro cyntaf yn y coed, fodd bynnag. Fe'i cafwyd ar ochr is ysgawen farw, lle roedd digonedd o glustiau'r ysgaw yn tyfu.*

Mae Mark wedi cynnig cyngor ardderchog o ran hela llwydnïau llysnafedd: '*Rwy'n sicr fod llawer rhagor o lwydnïau llysnafedd ar gael yn rhywle! Os am gael hyd iddynt, mater yw hi o droi boncyffion drosodd - er y bydd pobl sy'n cerdded heibio yn edrych yn od ar rywun weithiau!'* Fe wyddom tua 500% yn fwy o leiaf am lwydnïau llysnafedd  Rhondda Cynon Taf nag o'r blaen, diolch i Mark.

Dyma ebost gan Mark Evans a ddaeth i law yn gynnar ym mis Mai: '*A finnau ar fy ffordd adref o'r gwaith y prynhawn yma, meddyliais wibio i fyny i ardal twnnel Merthyr yng Nghwmbach, yn y gobaith - ofer yn y diwedd - o weld telor y coed cynnar. A finnau yn sefyllian yno gan edmygu'r fioledau, fe ddarfu i mi sylwi ar ryw dalpiau bach euraidd, heb fod ymhell i ffwrdd, yn y ffos draenio ar bwys y llwybr. Roeddwn i wedi gobeithio taw'r ffwng lled-ddyfrol neu ddyfrdrig rhyfedd hwnnw* ***penfelyn y ffosydd (Mitrula paludosa)*** *fyddai'r rhain, ac roeddwn i wrth fy modd yn darganfod taw dyna'n gywir beth oeddent. Roedd tua chant o'r cyrff hadu bach lliwgar yn dod i'r golwg o ddŵr bas y ffos, bob un ohonynt o fewn darn dau fetr o hyd. Nid oes cofnodion ohono ym Morgannwg ar Barth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (gwefan y Rhwydwaith). Mewn coedwig ger Libanus mae'r cofnod agosaf arall.'* Gyrrodd Mark lun anhygoel o syfrdanol o benfelyn y gors ataf. Yn ôl yr atgof oedd ganddo, roedd Martin Bevan *wedi sylwi cytref ohono mewn ffos, ar bwys y llinell rheilffordd mwynau o'r Hirwaun i Benderyn, ryw ddeng mlynedd yn ôl. Dyma fi'n sleifio i fyny heddiw i wirio, ac ie, dyna ydoedd! Mae'n debyg fod system gofnodi bywyd gwyllt MapMate yn cynnwys cofnodion ohonynt, ond am ryw reswm nid yw'r rhain wedi cyrraedd y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.*'

Gair bach am ffyngau i gloi! Mae Mark Steer wedi f'atgoffa am Helfa Ffyngau ym mis Medi: '*Cynhelir Helfa Ffyngau Comin Llantrisant ar Ddydd Sadwrn 26ain Medi 2015. Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru, nid oes mwy nac 20 i fod yn bresennol. Hoffech chi gadw lle? Rhaid i chi gysylltu â Mike Bright glamorganfungi@gmail.com.* Lle rhyfeddol yw Comin Llantrisant, yn llawn pethau rhyfeddol. Rwy'n amau y bydd ffyngau glaswelltir ymhlith y rhyfeddodau hynny.

**Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol Gwladol - cais am arolygwyr yng Nghymru**
Cawsom daflen am y canlynol, a dyma'i chenadwri: Cynllun monitro planhigion newydd wedi'i seilio ar gynefinoedd yw'r Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol Gwladol (CMPCG) gynlluniwyd gan Gymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain, y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, Bywyd Planhigion, a'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. Y nod yw casglu data i roi inni arwydd blynyddol ynghylch newidiadau o ran amlder a chyflenwad niferoedd planhigion a'r amrywiaeth ohonynt. Mae'r cynllun yn dibynnu ar wirfoddolwyr i gasglu'r data drwy gyfrwng sgwariau 1 cilomedr sydd wedi'u pennu ymlaen llaw. Gallwch gofrestru i wneud hyn a bydd deunyddiau hyfforddi a chyngor ar gael ichi unwaith y byddwch wedi cofrestru. Os hoffech fabwysiadu sgwâr a chyfrannu, cofiwch gofrestru er mwyn inni gwmpasu ardaloedd eang a chael y data gorau posibl ar Gymru.

*Hoffech chi gael rhagor o fanylion, neu gofrestru? Croeso i chi ymweld â gwefan Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol Gwladol'*

**Diwrnod Blits Pryfed Peillio, a Phryfed Peillio ar gyfer Pobl.**
Lle gwych ac anhygoel yw Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Daerwynno, yng nghalon Coedwig Llanwynno. Mae yma botensial ar gyfer pob math o wenyn a phicwn unig, brithegion a gwyfynod sy'n hedfan Bydd Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru, gan weithio gyda Chanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Daerwynno, yn cynnal dau achlysur neu ddigwyddiad yno ym mis Gorffennaf i chwilio am bryfed peillio. Mae'r manylion wedi'u nodi isod.

*Prosiect o eiddo Cyfoeth Naturiol Cymru yw Pryfed Peillio ar gyfer* Pobl. Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (CCBDDdC) sy'n ei *ddarparu a'i gyflwyno ar eu rhan fel rhan o'i gwaith ar sail ardal newydd yn nalgylch afon Rhondda. Nod y prosiect yw rhoi gwybod i bobl am bwysigrwydd planhigion a phryfed peillio ar gyfer pobl a'r amgylchedd, ysbrydoli pobl i ymddiddori mewn bywyd gwyllt mewn mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd yn y Rhondda, ac i adrodd am y bywyd gwyllt a welwyd ac a welir ganddynt. Cânt ddefnyddio cerdyn cofnodi, neu borth Gwe syml, sy'n cael eu datblygu.*

*Bydd y prosiect byr hwn yn cynnwys dau achlysur, y ddau i'w cynnal yng Nghanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Daerwynno, Coedwig Llanwynno:*

*Dydd Llun 6ed Gorffennaf 10.30yb - 3.30yp: Pryfed Peillio ar gyfer Pobl: Cyflwyniad i Hyfforddiant Cofnodi Biolegol. Sesiwn hyfforddiant i arweinwyr ac aelodau grwpiau amgylcheddol a chymunedol lleol. Bydd y sesiwn yn cyflwyno'r adnoddau a ffurflenni arolwg Pryfed Peillio ar gyfer Pobl, ac yn darparu cyflwyniad i gofnodi biolegol i ddechreuwyr. Rhoir cymorth er mwyn caniatáu i arweinwyr grwpiau gyflwyno, sesiynau hyfforddi dilynol i'w grwpiau'u hunain. Hoffech chi gymryd rhan? Croeso i chi gysylltu ag Adam Rowe yng Nghanolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru ar adam.rowe@sewbrec.org.uk erbyn Dydd Mercher 1af Gorffennaf.*

*Sadwrn 25ain Gorffennaf 10.00yb-4.00yp: Diwrnod Blits Bioamrywiaeth Pryfed Peillio: Cyfle i ddysgu sgiliau a medrau adnabod a nodi rhywogaethau ac i helpu*

*cofnodi'r bywyd gwyllt (pryfed peillio, blodau gwyllt, ac unrhyw beth arall o ddiddordeb) yng Nghanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Daerwynno ac yn ystâd goedwigaeth gyfagos Cyfoeth Naturiol Cymru. Oes gennych ddiddordeb mewn bod yn bresennol, fel arweinydd arbenigol neu fel cyfranogydd cyffredinol? Croeso i chi gysylltu â Charlene Davies, Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru, ar charlene.davies@sewbrec.org.uk*

*Cyhoeddir manylion pellach y ddau achlysur ar www.sewbrec.org.uk wrth iddynt gael eu cadarnhau.*

A dyna ddigon am y tro, mae'n debyg. Rhaid fy mod wedi colli ambell i adroddiad a chofnod, ac mi garwn i ymddiheuro am hynny ymlaen llaw. Rydym ni wedi symud ein swyddfa i Dŷ Sardis, Pontypridd. O'n swyddfa ar y chweched llawr gallwn weld llu o wenoliaid y glennydd a chrehyrod glas.

Diolch unwaith eto am eich cofnodion, geiriau, a meddyliau. Daliwch i gyfrannu ar bob cyfrif - a chofiwch fwynhau'r haf.

Richard Wistow
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf,
Tŷ Sardis,
Sardis Road,
Pontypridd
CF37 1DU

Richard.j.wistow@rctcbc.gov.uk